Ymgynghoriad y DU ar Ddogfen y Comisiwn COM (2007) 551 Papur Gwyrdd: Tuag at Ddiwylliant Newydd ar gyfer Symudedd Trefol

Crynodeb Gweithredol

Hoffwn dynnu eich sylw at ddogfen ymgynghori ddiweddar gan y Comisiwn Ewropeaidd, COM (2007) 551, yn **Atodiad A.** Ar 25 Medi 2005, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd Bapur Gwyrdd ar drafnidiaeth drefol. Yn ei Adolygiad Canol-Tymor yn 2006 o'r Papur Gwyn ar Bolisi Trafnidiaeth (2001), cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei fod yn bwriadu cyhoeddi Papur Gwyrdd ac, ers hynny, mae wedi bod wrthi'n ymgynghori ar weithredu posibl ar lefel UE i gefnogi trafnidiaeth drefol. Y Papur Gwyrdd yw'r cam cyntaf tuag at ddatblygu cynllun gweithredu yr UE ar drafnidiaeth drefol, sydd i'w ddarparu yn yr hydref 2008.

Mae'r Comisiwn wedi grwpio'r gwaith o dan bum thema allweddol, pob un gyda nifer o gamau gweithredu posibl ar sail argymhellion rhanddeiliaid; mae'r rhain yn cynnwys: Tagfeydd, Trafnidiaeth Lân (Werdd), Trafnidiaeth Ddoethach, Hygyrchedd, a Diogelwch. Ynghyd â rhan derfynol sy'n ystyried pa drefniadau ariannol y gellid eu cyflwyno i hwyluso mwy o symudedd trefol.

O dan y themâu hyn, mae'r Papur Gwyrdd yn gofyn 25 o gwestiynau ac mae'r Comisiwn eisiau gwybod beth yw barn Gwledydd yr Undeb, a rhanddeiliaid eraill, am y rhain. Ceir cynigion hefyd i gyfnewid ymarfer gorau mewn sawl maes, gan gynnwys systemau trafnidiaeth deallus, safonau diogelwch, a thechnoleg. Cyflwynir y cwestiynau hyn mewn profforma ymateb yn **Atodiad B.** Gwahoddir eich barn am y cwestiynau hyn, a gallwch gyflwyno'ch ymateb drwy ddefnyddio ein ffurflen ymateb ar-lein.

Pwrpas yr Ymgynghoriad

Nod yr ymgynghoriad fydd paratoi safiad y DU ar Bapur Gwyrdd yr UE a'r effaith bosibl y bydd yn ei gael ar bolisi trafnidiaeth drefol yn y DU.

Cynulleidfa'r Ymgynghoriad

Mae'r Ymgynghoriad wedi'i dargedu at Lywodraethau Datganoledig, Awdurdodau Lleol, Cenedlaethol a Rhanbarthol, dinasyddion a defnyddwyr

trafnidiaeth gyhoeddus drefol, grwpiau economaidd gan gynnwys y diwydiant trafnidiaeth, cymdeithasau a chynrychiolwyr rhanddeiliaid ynghyd â chyflogwyr / gweithwyr mewn sefydliadau trafnidiaeth gyfun yn y meysydd perthnasol. Fodd bynnag, mae croeso i unrhyw un wneud sylwadau.

Sut i ymateb

Bydd cyfnod yr ymgynghoriad yn rhedeg am 12 wythnos o'r 5 Tachwedd 2007 tan **28 Ionawr 2008**, cofiwch sicrhau bod eich ymateb yn ein cyrraedd erbyn hynny. Mae ar gael yn http://www.dft.gov.uk neu gallwch gysylltu â Lec Napal. Gallwn anfon y ddogfen ymgynghori hon mewn fformatau eraill atoch os gofynnwch. Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad at:

Lec Napal
Department for Transport (Yr Adran Drafnidiaeth),
Europe International & Better Regulation Division, Zone 4/13,
Great Minster House,
76 Marsham Street,
London, SW1P 4DR
Rhif ffôn: 0207 944 2103
Rhif ffacs: 0207 944 5811
Cyfeiriad e-bost: euurbangreenpaper@dft.gsi.gov.uk

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad yn **Atodiad B**, cofiwch lenwi'r ffurflen mor llawn ag y gallwch. Wrth ymateb, cofiwch ddweud a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad mwy, cofiwch nodi'n glir pwy y mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle mae hynny'n briodol, sut y casglwyd barn ei aelodau.

Mae rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwynt yn **Atodiad Ch.** Os ydych eisiau awgrymu unrhyw un arall a fyddai'n dymuno cyfrannu at y broses hon, cofiwch gysylltu â ni.

Cynhyrchwyd yr ymgynghoriad hwn yn unol ag egwyddorion 'Cod Ymarfer ar Ymgynghori' y Llywodraeth, a nodir y rhain yn **Atodiad C** y pecyn ymgynghori hwn.

Efallai y bydd angen inni basio'r wybodaeth a roddwch inni i'n cydweithwyr yn yr Adran Drafnidiaeth, a'i chyhoeddi fel rhan o grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a ddaw i law (*ynghyd ag ymateb gan y Llywodraeth).*

Byddwn yn cymeryd eich bod yn fodlon inni wneud hyn ac, os byddwch yn ymateb drwy e-bost, bod eich caniatâd yn diystyru unrhyw ymwrthodiad cyfrinachedd a gynhyrchir gan system TG eich sefydliad, oni fyddwch yn gofyn yn benodol i'r gwrthwyneb ym mhrif destun eich cyflwyniad inni.

Cofiwch sicrhau, os ydych eisiau inni gadw eich enw neu'ch ymateb yn gyfrinachol, eich bod yn nodi hyn yn glir yn eich ymateb. *(Bydd ymatebion*

cyfrinachol yn cael eu cynnwys mewn unrhyw grynodeb ystadegol o nifer y sylwadau a dderbynnir a'r safbwyntiau sy'n cael eu mynegi.)

Asesiad o Effaith

Ni chynhyrchwyd Asesiad o Effaith i gyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn, gan fod y Comisiwn eisiau ystyried barn Gwledydd yr Undeb am ba weithredu Ewropeaidd y dylid ei gyflwyno.

Beth fydd yn digwydd nesaf

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.dft.gov.uk ar ôl i gyfnod yr ymgynghoriad ddod i ben ar **28 Ionawr 2008**.

Yn ôl gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gellir cyhoeddi neu ddatgelu'r holl wybodaeth a roddwch yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Gallai hynny gynnwys gwybodaeth bersonol fel enw a chyfeiriad. Os ydych am inni gadw eich ymateb, neu eich enw a'ch cyfeiriad, yn gyfrinachol, dylech egluro pam fod angen y cyfrinachedd hwn. Byddwn ond yn caniatáu i'ch cais os yw hynny'n gyson â rhwymedigaethau Rhyddid Gwybodaeth. Ni fydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system e-bost yn cael ei ystyried i fod yn rhwymo'r Adran.

Yn gywir

John Carr
Pennaeth Polisi Trafnidiaeth yr UE
Department for Transport
(Yr Adran Drafnidiaeth)

ATODIAD B

FFURFLEN YMATEB YR YMGYNGHORIAD

Dogfen y Comisiwn COM (2007) 551
Papur Gwyrdd: Tuag at Ddiwylliant Newydd ar gyfer Symudedd Trefol

Gallwch gael gafael ar, a chyflwyno eich ymateb drwy ddefnyddio ein profforma ar-lein yn: http://www.dft.gov.uk/consultations/

RHAN 1 – Gwybodaeth amdanoch chi

Enw	
Cyfeiriad	
Cod Post	
E-bost	
Enw'r Cwmni neu Sefydliad (os yw'n berthnasol)	
Ticiwch un blwch o'r rhestr isod sy'n eich disgrifio chi neu'ch cwmni / sefydliad orau.	
☐	Busnes Bach i Ganolig (hyd at 50 o weithwyr)
☐	Cwmni Mawr
☐	Sefydliad Cynrychiadol
☐	Undeb Llafur
☐	Grŵp Budd
☐	Llywodraeth Leol
☐	Llywodraeth Ganolog
☐	Yr Heddlu
☐	Aelod o'r Cyhoedd
☐	Arall (disgrifiwch os gwelwch yn dda):
Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu grŵp budd, faint o aelodau sydd gennych a sut yr aethoch ati i gasglu barn eich aelodau:	
Os byddech yn hoffi inni drin eich ymateb neu'ch manylion personol yn **gyfrinachol**, eglurwch pam os gwelwch yn dda:	

RHAN 2 - Eich sylwadau

Tagfeydd.

1. A ddylid cyflwyno cynllun 'labelu' i gydnabod ymdrechion dinasoedd sydd ar y blaen gyda threchu tagfeydd a gwella amodau byw?	Dylid ☐	Na ddylid ☐
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:		
2. Pa fesurau y gellid eu cymryd i hyrwyddo cerdded a beicio fel opsiynau gwirioneddol i'r car?		
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:		
3. Beth y gellir ei wneud i hyrwyddo newid dull tuag at ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy mewn dinasoedd?		
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:		

Trafnidiaeth Lân (Werdd)

4. Sut y gallwn hyrwyddo mwy fyth o ddefnyddio technolegau glân, sy'n arbed ynni, ar gyfer trafnidiaeth drefol?		
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:		
5. Sut y gallwn hyrwyddo caffael gwyrdd ar y cyd?		
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:		
6. A oes angen cynhyrchu meini prawf neu ganllawiau ar gyfer diffinio Parthau Gwyrdd a'u mesurau cyfyngu? Sut orau y gallwn sicrhau eu bod yn gydnaws â chylchrediad rhydd? A oes unrhyw broblem gyda gorfodi rheolau lleol mewn Parthau Gwyrdd yn drawsffiniol?	Oes ☐	Nac oes ☐

Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:
7. Sut y gallwn hyrwyddo eco-yrru ymhellach? Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:

Trafnidiaeth Ddoethach

8. A ddylid datblygu a hyrwyddo gwasanaethau gwybodaeth gwell i deithwyr?	Dylid ☐	Na ddylid ☐
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:		
9. A oes angen camau pellach i sicrhau bod rhyngwynebau a rhyngweithredu rhwng rhaglenni Systemau Trafnidiaeth Deallus yn cael eu safoni mewn trefi a dinasoedd? Pa raglenni a ddylai gael blaenoriaeth wrth gyflwyno unrhyw gamau? Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:	Oes ☐	Nac oes ☐
10. O ran Systemau Trafnidiaeth Deallus, sut y gallwn gyfnewid gwybodaeth ac arferion gorau yn well rhwng yr holl bartïon?		
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:		

Hygyrchedd

11. Sut y gellir gwella ansawdd trafnidiaeth gyfun mewn dinasoedd a threfi Ewropeaidd?		
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:		
12. A ddylid annog datblygu lonydd dynodedig ar gyfer	Dylid ☐	Na ddylid

trafnidiaeth gyfun?	☐
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:	
13. A oes angen cyflwyno Siarter Ewropeaidd ar hawliau a rhwymedigaethau i deithwyr sy'n defnyddio trafnidiaeth gyfun?	Oes ☐ Nac oes ☐
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:	
14. Pa fesurau y gellid eu cymryd i integreiddio trafnidiaeth i deithwyr a chludo nwyddau yn well wrth ymchwilio i a chynllunio symudedd trefol?	
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:	

Diogelwch

15. Sut y gallwn sicrhau cydlynu gwell rhwng trafnidiaeth drefol a rhyngdrefol, a chynllunio defnydd tir? Pa fath o strwythur sefydliadol a fyddai'n briodol?	
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:	
16. Pa gamau pellach y dylid eu cymryd i helpu dinasoedd a threfi i gwrdd â'u sialensau diogelwch ffyrdd a diogelwch personol ar gyfer trafnidiaeth drefol?	
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:	
17. Sut y gallwn wella gwybodaeth gweithredwyr a dinasyddion am botensial uwch-dechnolegau cerbydau a rheoli seilwaith i sicrhau diogelwch?	

Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:
18. A ddylid datblygu dyfeisiau radar awtomatig, wedi eu haddasu i'r amgylchedd trefol, a hyrwyddo eu defnydd? Dylid ☐ Na ddylid ☐
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:
19. A ydyw gwyliadwraeth fideo yn arf ddiogelwch dda ar gyfer trafnidiaeth drefol? Ydy ☐ Nac ydy ☐
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:

Gwella Gwybodaeth ac Adnoddau Ariannol

20. A ddylid annog yr holl randdeiliaid i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu diwylliant symudedd newydd yn Ewrop? Ar sail model yr Arsyllfa Diogelwch Ffyrdd Ewropeaidd, a ddylid sefydlu Arsyllfa Ewropeaidd ar Symudedd Trefol fel menter ddefnyddiol i hwyluso'r cydweithrediad hwn? Dylid ☐ Na ddylid ☐
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:
21. Sut y gellid defnyddio'r offerynnau ariannol presennol, fel cyllid strwythurol a chydlyniant, yn well ac mewn ffordd fwy cydlynol i gefnogi trafnidiaeth drefol integredig a chynaliadwy?
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:
22. Sut y gallai offerynnau economaidd, yn enwedig offerynnau marchnad, gefnogi trafnidiaeth drefol lân sy'n

arbed ynni?
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:
23. Sut y gallai gwaith ymchwil pwrpasol helpu i integreiddio cyfyngiadau trefol a datblygiad traffig trefol yn well?
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:
24. A ddylid annog trefi a dinasoedd i godi taliadau trefol? A ddylid cael fframwaith cyffredinol a / neu ganllawiau ar gyfer taliadau trefol? A ddylid clustnodi'r refeniw i wella trafnidiaeth drefol gyfun? A ddylid 'mewnoli' costau allanol? Dylid ☐ Na ddylid ☐
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:
25. Pa werth ychwanegol a allai ddod, yn y tymor hir, o ddefnyddio cymorth Ewropeaidd wedi'i dargedu i ariannu trafnidiaeth drefol lân sy'n arbed ynni?
Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda, neu nodwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych i'w gwneud:

Os oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol eraill yr hoffech eu gwneud yng nghyswllt yr ymgynghoriad hwn, dylech eu gwneud yma:

Ar ôl ei llenwi, dylech anfon y ffurflen hon at:

Department for Transport
Europe International & Better Regulation Division,
Zone 4/13

Great Minster House
76 Marsham Street
London, SW1P 4DR
Ffôn: 0207 944 2103
Ffacs: 0207 944 5811
E-bost: euurbangreenpaper@dft.gsi.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw: **28 Ionawr 2008**

Atodiad C

Y Cod Ymarfer ar Ymgynghori

Mae'r Llywodraeth wedi mabwysiadu cod ymarfer ar gyfer ymgynghori. Mae'r cod yn berthnasol i bob ymgynghoriad cyhoeddus yn y DU gan asiantaethau ac adrannau o'r llywodraeth, gan gynnwys ymgynghori ar gyfarwyddebau'r UE.

Er nad oes gan y cod rym cyfreithiol, ac nid yw'n blaenori ar ofynion statudol neu orfodol allanol eraill (e.e. o dan Gyfraith y Gymuned Ewropeaidd), dylid fel arall ei ystyried i fod yn eich rhwymo oni bai fod Gweinidogion yn casglu bod angen gwyro oddi wrtho oherwydd amgylchiadau eithriadol.

Mae'r cod yn cynnwys chwe maen prawf. Dylid eu nodi ym mhob dogfen ymgynghori. Dylid egluro unrhyw wyro o'r meini prawf hyn a chadarnhau eu bod fel arall wedi cael eu dilyn.

Meini prawf ar gyfer ymgynghori

1. Ymgynghori'n eang drwy gydol y broses, gan roi 12 wythnos o leiaf ar gyfer ymgynghori ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod datblygiad y polisi.
2. Bod yn glir ynghylch beth yw eich cynigion, pwy a allai gael eu heffeithio ganddynt, pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn a'r amserlen ar gyfer ymateb.
3. Dylid sicrhau bod eich ymgynghoriad yn glir, cryno a hygyrch i bawb.
4. Dylid rhoi adborth ar yr ymatebion a dderbynnir a sut y dylanwadodd proses yr ymgynghori ar y polisi.
5. Dylid monitro pa mor effeithiol yw eich adran wrth ymgynghori, gan gynnwys drwy ddefnyddio cydlynydd ymgynghori dynodedig.
6. Dylid sicrhau bod eich ymgynghoriad yn dilyn ymarfer gorau ar reoleiddio gwell, gan gynnwys cyflawni Asesiad o Effaith os yw hynny'n briodol.

Mae fersiwn llawn o'r cod ymarfer ar gael ar wefan Swyddfa'r Cabinet yn:
http://www.cabinetoffice.gov.uk/regulation/documents/consultation/pdf/code.pdf

Os credwch nad yw'r ymgynghoriad hwn yn cydymffurfio â'r meini prawf neu os oes gennych sylwadau ar broses yr ymgynghoriad, cysylltwch â:

Andrew D Price
Consultation Co-ordinator
(Cydlynydd yr Ymgynghoriad)
Department for Transport
(Yr Adran Drafnidiaeth)
Zone 4/13 Great Minster House
76 Marsham Street
London, SW1P 4DR

e-bost: consultation@dft.gsi.gov.uk